# Y Pwyllgor Adolygu Gweithredol

## 16 Mawrth 2022

Yn Bresennol: Y Cynghorydd K Doolin (Cadeirydd)
Cynghorydd P Harries, Dr M Havard, Mrs J James, Cynghorydd P Kidney (heb bleidlais), Cynghorydd PJ Morgan, Dr R Plummer a'r Cynghorydd S Yelland.

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am – 11.50am)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
**D**erbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd M Evans a'r Cynghorydd A Wilcox.

**2. Datgan Buddiannau**
Roedd Dr R Plummer wedi datgan bod ganddo fuddiant personol ond nid rhagfarnus yn eitem 4 (Lle Chwarae Freshwater East) ac yn Adroddiad 04/22 (Adroddiad Blynyddol y Parcmyn); fodd bynnag arhosodd yn y cyfarfod a chymryd rhan lawn yn y trafodaethau.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 1af o Ragfyr 2021 i'w cadarnhau a'u dilysu.

**Penderfynwyd** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 1af o Ragfyr 2021.

**4. Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd P Kidney bod yr Awdurdod yn cychwyn trafodaethau gyda Chyngor Cymuned Llandyfái, ac unrhyw bartïon â buddiant, naill ai i roi neu werthu tir yn Freshwater East, ar gyfer darparu maes chwarae i blant.**
Dywedodd y Cadeirydd bod yr Awdurdod wedi ystyried y Rhybudd o Gynnig hwn yn ei gyfarfod ar y 9$^{fed}$ o Chwefror 2022, pan gyfeiriwyd y mater at y Pwyllgor Adolygu Gweithredol i'w ystyried yn ei gyfarfod nesaf. Gan nad oedd gan y Pwyllgor yr awdurdod i wneud penderfyniad ar y mater hwn, byddai'r canlyniad yn cael ei adrodd yn ôl i'r Awdurdod cyn gynted â phosibl.

Roedd y Swyddog Ystadau wedi paratoi adroddiad ar ran y Grŵp Rheoli Asedau oedd yn nodi hanes y cais hwn, a wnaethpwyd yn wreiddiol gan Gyngor Cymuned Llandyfái fis Hydref 2021. Roedd yr adroddiad hwn yn egluro, yn dilyn trafodaeth yn y Grŵp Rheoli Asedau, bod ymateb wedi ei anfon at y Clerc yn nodi nad oedd swyddogion yn gallu clustnodi unrhyw angen amlwg am faes chwarae penodol i blant yn y lleoliad hwn ond yn

gwahodd y Cyngor Cymuned i gyflwyno unrhyw wybodaeth bellach. Dywedwyd nad oedd unrhyw ohebiaeth bellach wedi dod i law.

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i’r Cynghorydd Kidney i'r cyfarfod, fel cynigydd y Rhybudd o Gynnig. Eglurodd y Cynghorydd Kidney nad oedd Cyngor Cymuned Llandyfái o’r farn bod eu cais wedi cael ystyriaeth ddigonol ac nad oeddent yn hapus â’r ymateb a dderbyniwyd. Roedd ar ddeall eu bod yn dymuno prynu darn bach o dir rhwng y maes parcio a'r traeth ar gyfer maes chwarae bach i blant. Byddai hyn o fudd i deuluoedd lleol, na allai o reidrwydd deithio i'r maes chwarae yn Llandyfái, yn ogystal ag i ymwelwyr. Dywedodd bod y gymuned yn cynnwys nifer o ail gartrefi, ac y byddai cais am grant yn cael ei gyflwyno i’r Gronfa Gwella Sir Benfro i gyflawni’r gwaith datblygu.

Dywedodd y swyddog bod yr Awdurdod wedi caffael y tir er mwyn diogelu a chadw ardal y twyni. Roedd y Gymuned wedi dymuno dynodi'r ardal yn Faes Pentref, rhywbeth yr oedd yr Awdurdod wedi ei wrthwynebu gan y byddai hynny wedi atal unrhyw waith datblygu. Ers hynny, roedd y tir wedi'i ddynodi'n Warchodfa Natur Leol ac fel tir mynediad o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, ond roedd hefyd yn destun cyfyngiadau eraill. Ychwanegodd y Prif Weithredwr bod swyddogion yn ymgysylltu'n rheolaidd â thrigolion Freshwater East ac er bod llawer o grwpiau â blaenoriaethau gwahanol, roedd y Cyngor Cymuned yn cael ei gydnabod fel y corff sydd â chyfrifoldeb democrataidd.

Gan ddiolch i'r swyddogion am egluro'r cefndir, dywedodd yr Aelodau ei bod yn anffodus nad oedd y ddeialog rhwng y Cyngor Cymuned a'r Awdurdod wedi parhau. Awgrymwyd ganddynt bod angen ailagor y llinellau cyfathrebu er mwyn i'r Cyngor Cymuned allu egluro eu hanghenion a’r Awdurdod allu egluro cyfyngiadau'r ardal er mwyn dod i well dealltwriaeth. Gan ddibynnu ar ganlyniad y drafodaeth, codwyd y posibilrwydd o gynnal ymweliad safle yn y dyfodol.

**Penderfynwyd** bod y Pwyllgor yn gofyn i’r swyddogion gyfathrebu ymhellach â Chyngor Cymuned Llandyfái ynghylch darparu maes chwarae i blant yn Freshwater East ac adrodd yn ôl i’r Pwyllgor hwn fel y gellir gwneud argymhelliad i gyfarfod o’r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn y dyfodol.

[Ymddiheurodd y Cynghorwyr P Harries a P Kidney gan adael y cyfarfod yr adeg hon.]

**5. Datganiad Llywodraethu Blynyddol**

Atgoffwyd yr Aelodau ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod gynhyrchu Datganiad Llywodraethu Blynyddol, a gofynnwyd am eu sylwadau ar ddatganiad drafft 2021/22. Byddai hwn yn dod yn Atodiad i'r Cyfrifon Blynyddol fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Awdurdod yn ddiweddarach yn y

flwyddyn. Dywedodd y Rheolwr Cyllid bod Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol sydd i'w chanfod yn Adran 5 o'r ddogfen wedi'i hargraffu mewn coch gan nad oedd eto wedi'i chyflwyno i'r Awdurdod.

Gan ddiolch i'r swyddog am ddogfen gynhwysfawr, awgrymodd yr Aelodau y dylid cyfeirio yn yr adran Fframwaith Llywodraethu o'r Datganiad at yr adolygiad o risg, oedd wedi arwain at ddiwygio Cylch Gorchwyl y Pwyllgor yn gynharach yn y flwyddyn, er y nodwyd bod hynny wedi'i adrodd yn yr adran Adolygu Effeithiolrwydd. Awgrymwyd hefyd y gallai'r ddogfen roi mwy o sylw i'r camau a gymerodd yr Awdurdod mewn ymateb i faterion yr Iaith Gymraeg a'r argyfyngau hinsawdd a natur. Awgrymwyd y byddai cynnwys rhifau paragraffau yn hwyluso croesgyfeirio; byddai mân sylwadau eraill yn cael eu hanfon ar yr e-bost yn uniongyrchol at y swyddog.

Gan ddiolch i'r Aelodau am eu sylwadau, dywedodd y Rheolwr Cyllid bod yr adroddiad wedi'i adolygu'n ddiweddar gan Bwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol yr Awdurdod ac y byddai'r sylwadau a dderbyniwyd yn cael eu hamlygu yn y ddogfen cyn iddi gael ei chwblhau yn derfynol. Hefyd derbyniwyd canllawiau newydd oddi wrth Archwilio Cymru fyddai'n golygu rhai newidiadau mewn cyfeirio at ganllawiau deddfwriaethol, a rhai o adrannau'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael eu haildrefnu.

**Nodwyd.**

**6. Adroddiad Perfformiad am y Cyfnod yn Diweddu 31 Ionawr 2022**

Roedd yr adroddiad perfformiad yn dilyn strwythur y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau ar gyfer 2021/22. Roedd y Cynllun hwn yn dilyn dulliau Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol sydd â saith o amcanion llesiant, ac adran ychwanegol oedd yn cyflwyno gwybodaeth gyffredinol am lywodraethu. Roedd y gweithgareddau oedd yn ymateb i’r adferiad ar ôl Covid 19 wedi’u prif-ffrydio yn y ffrydiau gwaith o dan pob un o’r Amcanion Llesiant.

Roedd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan y Prif Weithredwr, yn cyflwyno’r perfformiad hyd at 31 Ionawr 2022 o ran data misol, ac ystadegau chwarterol am chwarter 1 i chwarter 3 (Ebrill i Rhagfyr), gan fynd ymlaen i dynnu sylw at ystadegau perthnasol o ran gwaith y gwahanol dimau ac adrannau’r Awdurdod.

Gofynnodd yr Aelodau i'w diolchiadau gael eu trosglwyddo i'r swyddog am adroddiad rhagorol. Er eu bod yn cydnabod yr heriau a brofir gan y gwasanaeth cynllunio, roeddent hefyd yn dymuno cymeradwyo safonau proffesiynol y tîm a'r hyn oedd yn cael ei gyflawni er gwaethaf y pwysau gwaith. Roeddent yn croesawu’r ffyrdd arloesol oedd yn cael eu defnyddio i ateb yr heriau o recriwtio. Gofynnwyd cwestiwn ynghylch

dyfodol y prosiect cydweithredol i ddatblygu ymagwedd ranbarthol tuag at y Datblygiadau Un Blaned a Gwella Bioamrywiaeth yr adroddwyd eu bod ar hyn o bryd wedi'u gohirio oherwydd newidiadau ym mhartneriaid y prosiect. Cytunodd y Prif Weithredwr i gael y wybodaeth dan sylw gan nad oedd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfarwyddydd y Parc yn bresennol yn y cyfarfod.

Hefyd gofynnodd yr Aelodau am i sylw gael ei gynnwys yn y dyfodol ar effeithiau ehangach y newid yn yr hinsawdd megis erydiad, difrod stormydd a newid yn lefel y môr. Hefyd awgrymwyd y gallai'r adroddiad sôn am lwyddiannau'r Awdurdod.

**Nodwyd.**

**7. Yr Ystâd Hyfforddiant Amddiffyn – Adroddiad Blynyddol y Parcmyn 2021**

Atgoffwyd yr Aelodau bod Gwasanaeth Parcmyn Castellmartin yn monitro ac yn rheoli nodweddion arbennig Ardaloedd Milwrol De Sir Benfro ac yn diogelu mynediad y cyhoedd i'r ardaloedd hyn. Ers 2003 roedd y gwasanaeth wedi'i ddarparu drwy bartneriaeth unigryw rhwng y Weinyddiaeth Amddiffyn (MoD) drwy'r Sefydliad Seilwaith Amddiffyn (DIO), Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a'r Awdurdod.

Llwyddiant arwyddocaol y bartneriaeth oedd cefnogi'r cynllun rheoli tir gwledig ar gyfer y Meysydd, ac un o'r gofynion allweddol oedd cyflogi Parcmon a Chynorthwyydd Tymhorol i reoli'r rhyng-gysylltu rhwng hamdden, cadwraeth natur a defnydd milwrol. Roedd y Parcmyn yn sicrhau bod gweithgareddau hamdden yn cael yr effaith leiaf bosibl ar adar sy'n nythu ar glogwyni a rhywogaethau nodedig eraill megis morloi drwy gyfres effeithiol o gyfyngiadau tymhorol y cytunwyd arnynt ar ddringo, rheoli'r rhwydwaith mynediad cyhoeddus, a darparu cyfleoedd eraill i gael mynediad i'r meysydd. Bu'r Parcmyn yn gweithio'n agos ar fonitro nodweddion cadwraeth y safleoedd cofrestredig ar Feysydd y Weinyddiaeth Amddiffyn, cysylltu â grwpiau defnyddwyr, yn sifiliaid a milwrol, a sicrhau bod mynediad cynaliadwy i'r cyhoedd yn cael ei gyflawni pryd bynnag y bo modd, yn unol â'r gofynion milwrol.

Roedd Adroddiad Blynyddol y Parcmyn 2021 wedi'i atodi i'r adroddiad a chyflwynwyd hwn gan Barcmon Castellmartin, a ganolbwyntiodd ar brosiectau allweddol ac eitemau gwaith ym mhob un o'r safleoedd dan sylw.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddog am adroddiad da oedd yn rhoi crynodeb defnyddiol o'r hyn oedd yn amlwg wedi bod yn flwyddyn brysur. Roeddent yn dymuno cymeradwyo'r bartneriaeth fel enghraifft o dri sefydliad allweddol yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau canlyniadau

cadarnhaol, a'u gobaith oedd y gellid rhannu'r adroddiad yn ehangach yn y dyfodol i dynnu sylw at y gwaith. Roeddent yn siomedig o ddarllen na fyddai'r Sesiynau Briffio ar-lein ar y Meysydd yn parhau, ond eu gobaith oedd y gellid rhoi ystyriaeth bellach i fodel diwygiedig yn y dyfodol.

**Nodwyd.**

**8. Grŵp Gwella Parhaus: dirprwyo materion**

Mewn ymateb i'r cwestiwn a godwyd yn y cyfarfod blaenorol ynghylch cynnwys yr eitem hon ar yr agenda neu beidio, dywedodd y Prif Weithredwr, er nad oedd y Grŵp wedi cyfarfod ers blynyddoedd lawer, ei fod o'r farn bod y grŵp yn fodd defnyddiol o ystyried unrhyw faterion fyddai'n codi. Awgrymodd felly y gellid tynnu'r eitem oddi ar yr agenda, ond byddai'r gallu i'r Pwyllgor gyfeirio unrhyw eitemau at sylw'r Grŵp yn parhau.

Penderfynwyd **nad** oedd unrhyw faterion yr oedd angen eu dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus i'w hystyried, a bod yr eitem hon yn cael ei dileu fel eitem sefydlog ar agendâu'r dyfodol.

**9. Diolch**

Dywedodd y Cadeirydd mai hwn fyddai ei gyfarfod olaf o'r Pwyllgor hwn gan nad oedd yn sefyll yn yr etholiad sydd i ddod, a dymunai ddiolch i'r swyddogion ac i'r Aelodau am eu cymorth, ac am eu cyfraniadau yn ystod y pum mlynedd y bu'n Gadeirydd.

**Nodwyd.**

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2022 heb eu diwygio. |